Cwm Taf Morgannwg

# Bwrdd Diogelu
# Safeguarding Board







# Cynllun Blynyddol
## 2020-2021

# Cynnwys


| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| **DIOGELU YNG NGHWM TAF MORGANNWG** | **3** |
| **BETH YW'R DEILLIANNAU RYDYN NI'N BWRIADU EU CYFLAWNI ELENI?** | **5** |
| **1.** Datblygu'r diwylliant o ddysgu gan alluogi'r Bwrdd i ddangos tystiolaeth o'r gwahaniaeth mae'n ei wneud i arferion diogelu, a'i hyrwyddo | **6 - 8** |
| **2.** Bod yn Fwrdd Diogelu rhanbarthol integredig a gweithredol | **8 - 10** |
| **3.** Cryfhau cyfathrebu a chysylltiadau strwythurol mewn perthynas â materion sy'n achosi pryder i ni ac i Bartneriaethau eraill yn y rhanbarth | **10 - 12** |
| **4.** Gwella'r ffordd rydyn ni'n ymgysylltu ac yn hyrwyddo cyfranogiad yn ein cymunedau | **12 - 14** |
| **Â PHWY YDYN NI'N BWRIADU CYD WEITHIO I GYFLAWNI EIN HAMCANION?** | **14** |
| **EIN CYLLIDEB** | **15** |
| **OES GYDA CHI BRYDERON AM RYWUN?** | **16** |
| **ATODIAD 1 – AELODAU'R BWRDD** | **17 - 19** |
| **ATODIAD 2 – STRWYTHUR Y BWRDD** | **20** |

# DIOGELU YNG NGHWM TAF MORGANNWG

Mae ardal Cwm Taf Morgannwg yn cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf lle mae bron i 440,000 o drigolion.

Mae **Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg** yn bartneriaeth statudol ag asiantaethau sy'n gyfrifol am ddiogelu plant ac oedolion mewn perygl yn ardal Cwm Taf Morgannwg. Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod gan asiantaethau yn y rhanbarth trefniadau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod pobl o bob oed sy'n byw yn y rhanbarth yn cael eu diogelu rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu fathau eraill o niwed. Mae hyn hefyd yn golygu atal achosion o gam-drin, esgeuluso neu fathau eraill o niwed rhag digwydd.

Mae cadw plant ac oedolion sydd efallai ag anghenion gofal a chymorth yn ddiogel yn gyfrifoldeb i bawb. Mae hyn yn golygu teimlo'n ddiogel a bod yn ddiogel yn y cartref, y gymuned, yr ysgol, y gweithle neu unrhyw le arall.

Mae'r ddau brif amcan **diogelu** allweddol o ran **amddiffyn** ac **atal** yn sail i waith y Bwrdd Diogelu ac yn llywio'r blaenoriaethau rydyn ni wedi cytuno arnyn nhw yn y Cynllun Blynyddol yma ar gyfer 2020/2021.

## Beth yw Cam-drin ac Esgeulustod?

- Mae'r term cam-drin yn golygu cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol
- Mae'r term esgeuluso yn golygu peidio â diwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol a seicolegol sylfaenol yr unigolyn, sy'n debygol o amharu ar ei les

## Diogelu i Bawb

Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn cyflawni ei amcanion yn unol â chanllawiau statudol cenedlaethol fel sydd wedi'i nodi yn Adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ein hamcan yw gwella trefniadau diogelu ar gyfer pawb. Mae cydweithio rhwng trefniadau diogelu plant ac oedolion yn yr ardal wedi arwain at nifer o swyddogaethau ar y cyd, gan

gynnwys Bwrdd Diogelu ar y cyd. Mae'r Bwrdd yn parhau i fanteisio ar bob cyfle i gydweithio ar draws gwasanaethau diogelu plant ac oedolion i gefnogi gweithio ar y cyd a rhannu gwybodaeth a dysgu.

## Hybiau Diogelu Amlasiantaeth

Mae yna ddwy Ganolfan Hwb Diogelu Amlasiantaeth (MASH) yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg, sef:

**Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf** a **Hwb Diogelu Amlasiantaeth Pen-y-bont ar Ogwr**.

Bwriad yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth yw bod yn bwynt cyswllt ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol i roi gwybod am unrhyw bryderon am ddiogelwch. Mae'r Hwb yn darparu cyfle ar gyfer diogelu o safon uwch trwy roi rhagor o wybodaeth i bob gweithiwr proffesiynol er mwyn iddo wneud penderfyniadau gwell gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ganddo. Mae'r Hwb wedi gwella'n sylweddol sut mae gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng asiantaethau, gan helpu i ddiogelu'r plant a'r oedolion mwyaf agored i niwed rhag cael eu niweidio, eu hesgeuluso a'u cam-drin.

## Pwy yw Aelodau'r Bwrdd Diogelu?

Prif bartner y Bwrdd yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac mae'r aelodaeth yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol sydd yn Adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Mae rhestr o aelodau ynghlwm yn Atodiad 1.

## Beth yw Swyddogaethau Craidd y Bwrdd Diogelu?

Mae gan bob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol gyfrifoldeb statudol i gyflawni swyddogaethau craidd mewn perthynas â gweithgarwch diogelu amlasiantaeth. Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn cyflawni'r swyddogaethau yma o ddydd i ddydd trwy sefydlu pwyllgorau ac is-grwpiau penodol (gweler Atodiad 2). Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfrannu at waith datblygu, gweithredu a monitro protocolau a gweithdrefnau sy'n helpu i ddiogelu oedolion a phlant ac i'w hatal rhag cael eu cam-drin

- Codi ymwybyddiaeth o amcanion y Bwrdd i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl, a'u hatal rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'u niweidio mewn ffyrdd eraill, a darparu gwybodaeth am sut mae modd cyflawni hyn
- Adolygu effeithiolrwydd mesurau wedi'u cymryd gan asiantaethau i weithredu amcanion y Bwrdd, gwneud argymhellion a'u monitro
- Cynnal adolygiadau ymarfer plant, adolygiadau ymarfer oedolion, archwiliadau, ymchwiliadau ac arolygon eraill yn ôl yr angen yn unol â'i amcanion a dosbarthu dysgu a gwybodaeth sy'n codi o'r arolygon yma
- Adolygu cyflawniad y Bwrdd a'i bartneriaid a chyrff sydd â chynrychiolwyr ar y Bwrdd wrth gyflawni ei amcanion
- Hwyluso gwaith ymchwil i amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso ac ymchwilio er mwyn atal hynny rhag digwydd
- Adolygu anghenion hyfforddi ymarferwyr sy'n gweithio yn ardal y Bwrdd er mwyn pennu hyfforddiant i helpu diogelu'r plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, ac i atal hynny rhag digwydd

## BETH YW'R DEILLIANNAU RYDYN NI'N BWRIADU EU CYFLAWNI ELENI?

Yn ogystal â chyflawni'r swyddogaethau diogelu statudol craidd, mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg wedi cytuno ar nifer o flaenoriaethau allweddol i'w gwella ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Dyma'r meysydd penodol fydd yn gwella a chefnogi'r Bwrdd i gyflawni ei amcanion:

1. **Datblygu'r diwylliant o ddysgu gan alluogi'r Bwrdd i ddangos tystiolaeth o'r gwahaniaeth mae'n ei wneud i arferion diogelu, a'i hyrwyddo**
2. **Bod yn Fwrdd Diogelu rhanbarthol integredig a gweithredol**
3. **Cryfhau cyfathrebu a chysylltiadau strwythurol mewn perthynas â materion sy'n achosi pryder i ni ac i Bartneriaethau eraill yn y rhanbarth**
4. **Gwella'r ffordd rydyn ni'n ymgysylltu ac yn hyrwyddo cyfranogiad yn ein cymunedau**

***Bydd cynllun gwaith manwl ar gyfer y Bwrdd a'i is-grwpiau o dan y Cynllun Blynyddol strategol yma. Bydd y cynllun gwaith yn cynnwys y camau gweithredu angenrheidiol i gyflawni'r gwelliannau, manylion yr unigolyn cyfrifol, amserlenni a dulliau mesur llwyddiant.***

Bydd cynnydd y cynllun gwaith yn cael ei fonitro a'i adolygu bob chwarter a bydd yn sail i'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2020-2021.

Mae trosolwg o'r hyn mae'r Bwrdd yn bwriadu ei wneud i gyflawni'i flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod wedi'i nodi isod.

## Blaenoriaeth Strategol 1: Datblygu'r diwylliant o ddysgu gan alluogi'r Bwrdd i ddangos tystiolaeth o'r gwahaniaeth mae'n ei wneud i arferion diogelu, a'i hyrwyddo

- Mae sicrhau gwella'r polisiau, systemau ac arferion diogelu yn swyddogaeth graidd i Fwrdd Diogelu. Mae angen i ni ganolbwyntio ar ddysgu o brofiad gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio i'n hasiantaethau partner
- Rhan bwysig o adolygu effeithiolrwydd mesurau diogelu yw trwy ganfyddiadau archwiliadau achos sy'n cael eu cynnal rhwng asiantaethau, yn ogystal â thrwy ddysgu o fforymau amlasiantaeth proffesiynol ac adolygiadau arfer plant ac oedolion
- Yn rhan o ddatblygu diwylliant o ddysgu cadarnhaol, rhaid i ni sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei dosbarthu'n eang o fewn y gweithlu i rannu'r arfer gorau a'r hyn sy'n cael ei ddysgu yn sgil adolygiadau, archwiliadau a gwaith arall y Bwrdd
- Mae'n ofynnol i'r Bwrdd fonitro i ba raddau mae unrhyw argymhellion yn cael eu rhoi ar waith, i ba raddau mae camau effeithiol yn cael eu cymryd ac i ba raddau mae'r canlyniadau'n cael eu monitro. Yn y pen draw, rhaid i ni fod yn sicr bod yr hyn sydd wedi'i ddysgu wedi gwneud gwahaniaeth i arferion diogelu
- Dylai'r hyn sydd wedi'i ddysgu hefyd gael ei adlewyrchu mewn gweithgareddau hyfforddi diogelu er mwyn meithrin gweithlu amlasiantaethol mwy hyderus a gwybodus

| Maes Blaenoriaeth | Beth sydd angen i ni'i wneud? | Dangosyddion Deilliannau |
|---|---|---|
| **Rhannu'r Dysgu yn sgil yr Archwiliadau a'r Adolygiadau** | ▪ Gwneud yn siwr fod yr hyn rydyn ni'n dysgu wedi'i nodi'n glir, yn gryno a'i fod yn berthnasol i'n harfer<br>▪ Defnyddio amrywiaeth o ddulliau ar gyfer cyfathrebu ag ymarferwyr a rheolwyr, gan gynnwys defnyddio 'sesiynau briffio 7 munud', achlysuron amlasiantaeth a diweddariadau misol<br>▪ Datblygu system i sicrhau bod asiantaethau partner yn adrodd ar sut maen nhw'n defnyddio'r hyn sydd wedi'i dysgu yn eu sefydliadau<br>▪ Datblygu cronfa ddata o addysg i nodi unrhyw themâu sy'n codi'n rheolaidd<br>▪ Sicrhau bod yr hyn sydd wedi'i ddysgu wedi'i nodi a'i ymgorffori'n rhan o hyfforddiant diogelu, lle bo hynny'n addas | ▪ Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â gwefan y Bwrdd<br>▪ Gwahanol ddulliau o rannu'r hyn sydd wedi'i ddysgu yn cynydddu<br>▪ Tystiolaeth gan asiantaethau partner bod yr hyn sy'n cael ei ddysgu'n cael ei rannu'n briodol yn eu sefydliadau<br>▪ Rhoi cronfa ddata o'r hyn sydd wedi'i ddysgu a themâu ar waith<br>▪ Hyfforddiant diogelu i adlewyrchu'r hyn sydd wedi'i ddysgu |
| **Monitro'r Camau Gweithredu sy'n codi o Archwiliadau ac Adolygiadau** | ▪ Ailedrych ar fformat ein Cynlluniau Gweithredu i gynnwys cefndir yr achos a'r rhesymeg dros yr argymhellion<br>▪ Rhoi mecanweithiau gwell ar waith ar gyfer monitro ein cynlluniau gweithredu, gan gynnwys dulliau priodol o uwchgyfeirio camau gweithredu sydd eisoes ar waith at y Bwrdd<br>▪ Sicrhau bod pob sefydliad yn cymryd cyfrifoldeb am weithredu'r hyn sydd wedi'i ddysgu a'r camau a gafodd eu nodi o archwiliadau ac adolygiadau | ▪ Cynnydd yn nifer y cynlluniau gweithredu SMART i roi argymhellion archwiliadau ac adolygiadau ar waith<br>▪ Cynnydd yn nifer y camau gweithredu wedi'u cwblhau o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnyn nhw |

| | | |
|---|---|---|
| **Gwerthuso Protocolau a Gweithdrefnau Newydd** | ▪ Mae angen i Grŵp Protocolau a Gweithdrefnau'r Bwrdd ystyried unrhyw brotocolau a gweithdrefnau newydd sydd wedi'u hargymell a gododd o ganlyniad i'r wybodaeth newydd a gafodd ei nodi mewn archwiliadau ac adolygiadau<br>▪ Sicrhau bod unrhyw brotocolau newydd/sydd wedi'u diweddaru yn cael eu gwerthuso ar ôl cyfnod o 6 mis, ac yn cael eu gwerthuso gan staff priodol yr holl asiantaethau partner | ▪ Yn rhan o'r broses, bydd ymgynghoriad ag ymarferwyr a bydd tystiolaeth bod polisïau wedi'u rhannu â nhw |
| **Tystiolaeth o Effaith yr hyn sydd wedi'i Ddysgu** | ▪ Sicrhau bod yr Is-grŵp/Panel Adolygu perthnasol yn gwybod yn union beth yw'r deilliant rydyn ni'n disgwyl ei gyflawni o'r dysgu sydd wedi'i nodi<br>▪ Datblygu system ail-archwilio er mwyn monitro sut mae'r hyn a gafodd ei ddysgu wedi'i ymgorffori yn rhan o'n harfer<br>▪ Sicrhau bod asiantaethau partner yn adrodd i'r Bwrdd ar sut maen nhw wedi rhoi'r hyn a gafodd ei ddysgu ar waith a sut mae hyn wedi effeithio ar arfer<br>▪ Gofyn am farn defnyddwyr y gwasanaeth/teuluoedd, lle bo hynny'n briodol, ar sut mae newidiadau i bolisïau/arferion wedi effeithio'n gadarnhaol arnyn nhw | ▪ Bydd tystiolaeth bod dysgu wedi digwydd ar gael drwy'r ail-archwiliadau<br>▪ Bydd adroddiadau asiantaethau partner a hunanwerthusiadau yn dangos effaith gadarnhaol ar arfer<br>▪ Bydd y dysgu'n effeithio'n gadarnhaol ar ddefnyddwyr y gwasanaeth |

## Blaenoriaeth Strategol 2: Bod yn Fwrdd Diogelu rhanbarthol integredig a gweithredol

- Ar 1 Ebrill 2019, newidiodd yr ardal ranbarthol ar gyfer diogelu a chymerodd y Bwrdd Diogelu gyfrifoldeb dros ardal Pen-y-bont ar Ogwr yn ogystal â Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful
- Cafodd aelodaeth a chylch gwaith y Bwrdd a'i Is-grwpiau eu hadolygu er mwyn adlewyrchu'r newid yma ac rydyn ni wedi dechrau defnyddio'r un prosesau, protocolau a thempledi
- Cafodd data sicrhau ansawdd a chyflawniad cyson ei ddatblygu er mwyn helpu â mesur effeithiolrwydd arfer a gweithdrefnau diogelu yn y rhanbarth

- Wrth i ni ddechrau ar ein hail flwyddyn fel Bwrdd rhanbarthol newydd, rydyn ni'n awyddus i gysoni ymhellach y trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd i sicrhau bod dull cyson a chydgysylltiedig o ddiogelu rhanbarthol
- Mae effeithiolrwydd y Bwrdd yn dibynnu ar sgiliau a chyfraniad ei aelodau ac mae angen i ni fod yn hyderus wrth herio a chraffu ar ein trefniadau diogelu.

| Maes Blaenoriaeth | Beth sydd angen i ni'i wneud? | Dangosyddion Deilliannau |
|---|---|---|
| **Strwythur y Bwrdd** | ▪ Sicrhau bod strwythur y Bwrdd yn integredig, gan wneud y mwyaf o gyfleoedd i wneud pob cyfarfod yn rhanbarthol, gan ganolbwyntio ar blant ac oedolion, lle bo hynny'n addas<br>▪ Sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn atebol am eu hasiantaethau a bod ganddyn nhw'r sgiliau priodol i herio mesurau diogelu ledled y rhanbarth yn effeithiol | ▪ Strwythur llwyr integredig sydd i'r Bwrdd<br>▪ Sefydlu Fframwaith Cyflawniad Rhanbarthol<br>▪ Adolygu proffiliau swyddogaeth Aelodau'r Bwrdd |
| **Llywodraethu Hwb Diogelu Amlasiantaeth** | ▪ Cyfuno'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf a Hwb Diogelu Amlasiantaeth Pen-y-bont ar Ogwr i leihau dyblygu a rhannu arfer da<br>▪ Datblygu cysondeb mewn arferion gwaith a threfniadau rheoli cyflawniad ar draws y ddau Hwb Diogelu Amlasiantaeth | ▪ Data cyflawniad a threfniadau adrodd cyson ar waith ar gyfer Hwb Diogelu Amlasiantaeth |
| **Dull rhanbarthol o fynd i'r afael â Cham-drin Plant yn Rhywiol** | ▪ Datblygu ymateb rhanbarthol i Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar Gam-drin Plant yn Rhywiol<br>▪ Cydlynu'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer mynd i'r afael â Chamfanteisio Rhywiol ar Blant ledled Cwm Taf a Phen-y-bont ar Ogwr er mwyn lleihau dyblygu a rhannu gwybodaeth | ▪ Cwblhau Camau Gweithredu Cam-drin Plant yn Rhywiol ar gyfer 2020/21<br>▪ Mabwysiadu dull cyson o fynd i'r afael â Chamfanteisio Rhywiol ar Blant ledled y rhanbarth |

| | | |
|---|---|---|
| **Ymateb rhanbarthol i Hunan-esgeuluso ac Achosion Cymhleth eraill yn ymwneud ag Oedolion** | ▪ Sefydlu Tasglu amlasiantaeth i ddatblygu dull rhanbarthol o ymdrin ag Achosion Cymhleth (gan gynnwys Hunan-esgeuluso) yn ymwneud ag Oedolion<br>▪ Datblygu gweithdrefn amlasiantaeth i gynorthwyo ymarferwyr i fynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â gweithio gydag achosion cymhleth | ▪ Bydd dull rhanbarthol o drin achosion cymhleth ar waith ac yn cael ei weithredu |
| **Yr Ystad Ddiogel** | ▪ Datblygu trefniadau adrodd effeithiol i'r Bwrdd o'r Ystad Ddiogel (Carchar EM/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc)<br>▪ Gwreiddio gwaith yr Ystad Ddiogel yn rhan o swyddogaethau a gweithgareddau'r Bwrdd | ▪ Mae memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar waith rhwng y Bwrdd a'r Carchar<br>▪ Trefniadau adrodd i'r Bwrdd ar waith |
| **Delio â Digwyddiadau Critigol (gan gynnwys hunanladdiadau)** | ▪ Datblygu dull cyffredin o fynd i'r afael â digwyddiadau critigol ledled y rhanbarth, gan gyfuno prosesau Grŵp Ymateb ar Unwaith Cwm Taf a phrosesau Grŵp Ymateb Cyflym Pen-y-bont ar Ogwr | ▪ Mae dull rhanbarthol o fynd i'r afael â digwyddiadau critigol a hunanladdiadau ar waith |

## Blaenoriaeth Strategol 3: Cryfhau'r cysylltiadau mewn perthynas â meysydd sy'n peri pryder cyffredin â Phartneriaethau eraill yn y rhanbarth

- Mae gweithio gyda Phartneriaethau eraill yn y rhanbarth yn rhan annatod o waith y Bwrdd er mwyn iddo gyflawni ei swyddogaethau'n fwy effeithiol.
- Rydyn ni wedi nodi nifer o feysydd cyffredin sy'n peri pryder ac sy'n ymestyn 'ar draws' cyfrifoldebau'r Bwrdd Diogelu a Phartneriaethau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys:
    - Llinellau Cyffuriau
    - Masnachu Pobl
    - Caethwasiaeth Fodern
    - Cam-drin yn y Cartref

- Hunanladdiad a Hunan-niweidio
- Camddefnyddio Sylweddau

| Maes Blaenoriaeth | Beth sydd angen i ni'i wneud? | Dangosyddion Deilliannau |
|---|---|---|
| **Bwrdd Troseddau Cyfundrefnol a Difrifol** | ▪ Sefydlu cylch gorchwyl y Bwrdd Troseddau Cyfundrefnol a Difrifol mewn perthynas â meysydd diddordeb cyffredin, i gynnwys:<br>○ Llinellau Cyffuriau<br>○ Caethwasiaeth Fodern<br>○ Masnachu Pobl<br>▪ Nodi pa wybodaeth sydd ei hangen ar y Bwrdd mewn perthynas â'r meysydd pryder yma a chytuno ar ba waith y mae modd ei wneud ar y cyd | ▪ Cytuno ar drefniadau adrodd ar linellau cyffuriau, caethwasiaeth fodern a masnachu pobl<br>▪ Cynnal gwaith ar y cyd ar y meysydd cyffredin yma sy'n peri pryder |
| **Grŵp Llywio Caethwasiaeth Fodern Bae'r Gorllewin** | ▪ Sefydlu cylch gorchwyl y Grŵp yma mewn perthynas ag Awdurdod Lleol Pen-y-bont ar Ogwr<br>▪ Nodi'r angen am fforwm ar wahân ar gyfer rhanbarth Cwm Taf Morgannwg | ▪ Mae dulliau effeithiol ar waith i reoli'r agenda Caethwasiaeth Fodern ledled y rhanbarth |
| **Cynllun Partneriaeth Cymunedau Diogel** | ▪ Cytuno ar ymateb ar y cyd mewn perthynas â meysydd allweddol sy'n peri pryder ledled y rhanbarth, sef:<br>○ Atal/Lleihau Hunanladdiad a Hunan-niweidio<br>○ Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig (gan ddatblygu ymhellach y gwaith ar y cyd a gafodd ei gynnal yn 2019/2020). Bydd hyn hefyd yn cynnwys:<br>▪ Trais yn erbyn Menywod a Thrais Rhywiol<br>▪ Proses Cynadleddau Amlasiantaeth ar gyfer | ▪ Gwaith ar y cyd wedi'i gyflawni mewn perthynas â meysydd cyffredin sy'n peri pryder<br>▪ Cyflenwi gweithgareddau hyfforddi a chyfathrebu manylach<br>▪ Cytuno ar sut mae camau gweithredu DHR yn cael eu |

| | | |
|---|---|---|
| | Asesu Risg<br>○ Camddefnyddio Sylweddau<br>▪ Parhau i gefnogi hyn gyda'r broses Adolygu Dynladdiad Domestig (DHR) a sefydlu systemau ar gyfer monitro'r camau sy'n deillio o'r adolygiadau yma | monitro a rhannu'r hyn a gafodd ei ddysgu (gweler Blaenoriaeth 1) |
| **Partneriaethau Law yn Llaw at Iechyd Meddwl** | ▪ Nodi cyfrifoldebau presennol y Partneriaethau Law yn Llaw at Iechyd Meddwl mewn perthynas â Hunanladdiad a Hunan-niweidio fel bod cytundeb o ran ymateb ar y cyd ledled y rhanbarth | ▪ Cytuno ar ymateb ar y cyd i hunanladdiad a hunan-niweidio |
| **Cadeiryddion Partneriaethau** | ▪ Cynnig bod grŵp 'Cadeiryddion Partneriaethau' yn cael ei sefydlu er mwyn mynd i'r afael â phryderon sy'n gyffredin ar draws nifer o feysydd, lleihau dyblygu gwaith a gwella gwaith diogelu yn y rhanbarth. | ▪ Mae cyfrifoldebau'r Bwrdd mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth wedi'u hymgorffori yn rhan o waith yr Is-grwpiau<br>▪ Cynnwys cynrychiolwyr y Bartneriaeth yn rhan o achlysuron a gweithgareddau'r Bwrdd, lle bo hynny'n addas |

## Blaenoriaeth Strategol 4: Gwella'r ffordd rydyn ni'n ymgysylltu ac yn hyrwyddo cyfranogiad yn ein cymunedau

- Rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod plant ac oedolion yn cael cyfle i gymryd rhan yn ei waith. Rydyn ni am sicrhau bod pobl yn gwybod rhagor am waith y Bwrdd ac yn gallu ein herio mewn modd agored
- Mae angen i ni ymgysylltu'n greadigol â phlant, pobl ifainc ac oedolion i wella'u cyfranogiad yng ngwaith y Bwrdd a chodi

proffil materion diogelu

- Eleni, byddwn yn cynyddu nifer yr achlysuron gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd, gwella cysylltiadau â fforymau lleol a grwpiau gweithgareddau i sicrhau ein bod ni'n cynnwys lleisiau'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi yn ein gwaith yn llwyr

| Maes Blaenoriaeth | Beth sydd angen i ni'i wneud? | Dangosyddion Deilliannau |
|---|---|---|
| **Cyfranogiad a Llais y Plentyn/ Oedolyn** | ▪ Adolygu Strategaeth Cyfranogiad y Bwrdd, o safbwynt amlasiantaeth, er mwyn sicrhau ei bod yn darparu fframwaith effeithiol i ymgysylltu â'n cymunedau a'u hannog i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd<br>▪ Ystyried gwahanol ddulliau sy'n galluogi'r cyhoedd i chwarae rhan fwy yng ngwaith y Bwrdd Diogelu, a'u defnyddio<br>▪ Trafod a chytuno ar y pynciau/meysydd gwaith allweddol sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Blynyddol yma er mwyn annog pobl i fod yn rhan ohonyn nhw<br>▪ Gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd a ddaw yn sgil yr Wythnos Genedlaethol Diogelu i wella cyfranogiad<br>▪ Nodi'r pwyntiau cyswllt allweddol yn ein hasiantaethau partner sydd eisoes â chysylltiadau cryf yn y gymuned i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gynnwys y gymuned<br>▪ Sefydlu Bwrdd Diogelu 'i Blant Iau' a chytuno ar feysydd a chyfrifoldebau'r Bwrdd, yn unol â Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifainc.<br>▪ Ystyried ffyrdd o ymgysylltu â'r grwpiau 'nad ydyn nhw'n cael eu clywed yn aml' neu'r grwpiau 'anoddach eu cyrraedd'<br>▪ Ystyried datblygu 'addewid i blant ac oedolion' i'w ymgorffori yng ngwaith y | ▪ Cynnydd yn nifer y gweithgareddau cymryd rhan<br>▪ Gwell dealltwriaeth gan gymunedau o'r Bwrdd Diogelu a'r gwaith mae'n ei wneud<br>▪ Dilyniant cadarnhaol ar yr ystod cyfranogiad<br>▪ Cynnydd yng nghyfranogiad y grwpiau anodd eu cyrraedd gyda'r Bwrdd Diogelu<br>▪ Cynllun 2021/2022 i'w lywio drwy gydweithio â'r cyhoedd |

| | | |
|---|---|---|
| | Bwrdd<br><br>▪ Defnyddio 'Ystod Cyfranogiad' i asesu cynnydd y Bwrdd a'i fesur wrth symud tuag at broses llunio ar y cyd â defnyddwyr y gwasanaeth/teuluoedd<br><br>▪ Sicrhau bod gwrando ar lais y plentyn/oedolyn yn ganolog i holl swyddogaethau'r Bwrdd Diogelu | |

## Â PHWY YDYN NI'N BWRIADU CYDWEITHIO I GYFLAWNI EIN HAMCANION?

Mae cydweithio'n effeithiol â phartneriaethau ac asiantaethau eraill, boed hynny ar sail ranbarthol neu genedlaethol, yn allweddol i gyflawni swyddogaethau'r Bwrdd yn effeithiol. O ganlyniad i hyn, rydyn ni wedi nodi hyn yn flaenoriaeth ynddo'i hun ar gyfer y flwyddyn i ddod (gweler Blaenoriaeth Strategol 3).

Yn ogystal â'r partneriaethau rydyn ni eisoes wedi'u nodi, byddwn ni'n datblygu a/neu wella gwaith ar y cyd fel a ganlyn:

| Â phwy byddwn ni'n cydweithio? | Meysydd cydweithio? |
|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | ▪ Polisïau a deddfwriaeth<br>▪ Canllawiau Arfer ar gyfer diogelu<br>▪ Proses Adolygu Unedig Newydd |
| **Arolygiaethau Cenedlaethol** | ▪ Derbyn adroddiadau a gweithredu ar arolygiadau mewn perthynas ag asiantaethau partner |
| **Y Trydydd Sector** | ▪ Annog eu cyfranogiad yng ngwaith y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol<br>▪ Hyfforddiant Diogelu |

| | |
|---|---|
| **Byrddau Diogelu Rhanbarthol Eraill** | ▪ Polisïau a gweithdrefnau cyson ledled Cymru<br>▪ Rhannu'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu ac arfer gorau<br>▪ Gweithredu Gweithdrefnau Diogelu Cymru |
| **Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol** | ▪ Gofyn am gyngor ar faterion diogelu cenedlaethol |

## EIN CYLLIDEB AR GYFER 2020-2021

Mae cyllideb y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn yn cael ei hariannu gan gyfraniadau ariannol yr asiantaethau partner statudol. Bydd y gyllideb yn galluogi'r Bwrdd i gyflawni deilliannau ei flaenoriaethau fel sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Blynyddol yma. Bydd yn cael ei dyrannu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Costau Staff a Llety'r Uned Rheoli Busnes: | £230,025 |
| Hysbysebu a Chyfieithu: | £6,090 |
| Gwariant Cyffredinol: | £9,850 |

## Oes Gyda Chi Bryderon am Rywun?

Os ydych chi'n amau bod **plentyn neu berson ifanc** yn cael ei niweidio, neu mewn perygl o gael ei niweidio, mae dyletswydd arnoch chi i roi gwybod amdano ar unwaith. Bydd pob galwad sy'n ymwneud â phryderon yn cael ei chymryd o ddifrif. Ffoniwch eich Carfan Diogelu leol ar y rhifau isod:

Yn Rhondda Cynon Taf: 01443 425006
Ym Merthyr Tudful: 01685 725000
Ym Mhen-y-bont ar Ogwr: 01656 642320

Oriau agor:
Llun – Iau: 8.30am – 5pm
Gwener: 8.30am – 4.30pm

Os ydych chi'n amau bod **oedolyn** yn cael ei niweidio, neu'n wynebu risg o gael ei niweidio, mae dyletswydd arnoch chi i roi gwybod amdano ar unwaith. Bydd pob galwad sy'n ymwneud â phryderon yn cael ei chymryd o ddifrif. Ffoniwch eich Carfan Diogelu leol ar y rhifau isod:

Yn Rhondda Cynon Taf: 01443 425003
Ym Merthyr Tudful: 01685 725000
Ym Mhen-y-bont ar Ogwr: 01656 642477

Oriau agor:
Llun – Iau: 8.30am – 5pm
Gwener: 8.30am – 4.30pm

I gysylltu â'r Gwasanaethau i Blant neu'r Gwasanaethau i Oedolion y tu allan i oriau'r swyddfa, dros y penwythnos ac ar wyliau banc, ffoniwch Garfan ar Ddyletswydd ar gyfer Argyfyngau Cwm Taf Morgannwg ar 01443 743665.

**Os ydych chi'n amau bod plentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl uniongyrchol o niwed, ffoniwch 999 a siarad â'r Heddlu.**

Os ydych chi eisiau rhoi gwybod am ddigwyddiad lle does dim angen ymateb ar frys, neu os oes ymholiad cyffredinol gyda chi, ffoniwch 101, sef rhif ffôn 24 awr yr heddlu ar gyfer achosion sydd ddim yn rhai brys. ***Ffoniwch 101 pan fydd y digwyddiad yn llai difrifol.***

## Cofiwch – mae diogelu yn fater i bawb!

**I gael rhagor o wybodaeth a chyngor ewch i: [www.ctmsb.co.uk](http://www.ctmsb.co.uk)**

# ATODIAD 1 – AELODAU'R BWRDD

| TEITL | ASIANTAETH |
|---|---|
| **Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blan (Cyd-gadeirydd)**<br>**Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd**<br>**Rheolwr Gwasanaeth Diogelu Oedolion**<br>**Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau i Oedolion**<br>**Pennaeth Diogelu a Chymorth (Plant)**<br>**Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes**<br>**Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau i Blant** | **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf** |
| **Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol (Cyd-gadeirydd)**<br>**Blaen Reolwr Diogelu**<br>**Prif Swyddog, Adfywio Cymunedau**<br>**Prif Swyddog, Addysg**<br>**Pennaeth Gwasanaethau i Blant**<br>**Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion** | **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful** |
| **Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cyd gadeirydd)** | **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** |

| | |
|---|---|
| **Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant**<br>**Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion**<br>**Pennaeth Addysg a Gwasanaethau i Deuluoedd** | |
| **Meddyg Enwebedig ar gyfer Diogelu**<br>**Cyfarwyddwr Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau i Gleifion**<br>**Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Ansawdd a Diogelwch** | **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg** |
| **Uwch-arolygydd, Uned Reoli Sylfaenol y Gogledd**<br>**Rheolwr Annibynnol Amddiffyn Pobl sy'n Agored i Niwed** | **Heddlu De Cymru** |
| **Prif Swyddog Cynorthwyol** | **Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol** |
| **Pennaeth yr Uned i Bobl Ifainc**<br>**Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro** | **Carchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwyr Ifainc** |
| **Cyfarwyddwr** | **Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr** |
| **Prif Swyddog** | **Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful** |
| **Cynrychiolydd y Trydydd Sector** | **Interlink** |
| **Pennaeth y Gwasanaeth** | **Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf** |

| | |
|---|---|
| **Meddyg Enwebedig (Carfan Diogelu Genedlaethol)** | **Iechyd Cyhoeddus Cymru** |
| **Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion** | **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru** |

**ATODIAD 2 –**
**STRWYTHUR Y BWRDD**

